# MYSTERIOUS AFAN CUDD
# TYWYSOGION AFAN

Roedd Tywysogion Afan yn llinach brenhinol Cymreig a oedd yn rheoli teyrnas Morgannwg cyn i'r Normaniaid ymosod ar Brydain yn 1066.

Roedd y Normaniaid wedi lladd Harold, brenin y Sacsoniaid ym Mrwydr Hastings ac, yn raddol, wedi cymryd rheolaeth ar Loegr gyfan. Yna roeddent wedi troi eu golygon at Gymru.



Y Normaniaid yn ymosod ar Loegry yn 1066
"The Bayeux Tapestry," World History Commons




Y Brenin Hywel Dda
Llyfrgell Genedlaethol Cymru, CC0, via Wikimedia Commons

Collodd Tywysogion Cymru llawer o dir ledled Cymru i'r ymosodwyr Normanaidd ond, am flynyddoedd lawer, roeddent wedi ceisio dal ymlaen i gymaint ohono ag y gallant, a chadw at yr hen ffordd o fyw. Roedd hyn yn cynnwys cyfreithiau Hywel Dda a gwahanol ffordd o drosglwyddo tir i'w hetifeddion.

# MYSTERIOUS AFAN CUDD

Ond roedd y Normaniaid wedi meddiannu'r tir yn nwyrain y deyrnas, hyd at, a gan gynnwys Margam. Yno roeddent wedi sefydlu abaty Sistersiaidd.



Mick Lobb / Adfeilion Abaty Margam. Wikimedia Commons

Roeddent wedi ymosod ar Gastell-nedd, gan adeiladu castell mwnt a beili yno ac, yn ddiweddarach, ei ail-adeiladu o garreg; mae'n dal i sefyll hyd heddiw. Hefyd, roeddent wedi sefydlu abaty yn Nedd, a gallwch ymweld ag adeiladau Abaty Nedd.




Photo by Chris Shaw, CC BY-SA 2.0,
https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=9169749



Gan Ajrhobby - en.wikipedia, CC BY-SA 3.0,
https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=5092604

# MYSTERIOUS AFAN CUDD

Roedd y Normaniaid yn rheoli Abertawe, Nedd, Cynffig, Llangynwyd a Chastell Newydd ym Mhen y Bont ar Ogwr. Ond, am resymau y gallwn ond ddyfalu yn eu cylch, roedd Tywysogion Afan wedi cadw eu tiroedd - o'r môr, ar hyd Cwm Afan a chyn belled â Hirwaun – o ddwylo'r Normaniaid am dros 200 mlynedd. Galwyd yr ardal hon Afan Wallia. Galwyd y tir o'i gwmpas Tir Iarll.




By Joan Blaeu - collections of the Koninklijke Bibliotheek, National Library of the Netherlands., Public Domain, https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=41671507

**PWY OEDD ARGLWYDDI – NEU DYWYSOGION - AFAN?**

Roeddent yn ddisgynyddion i Iestyn ap Gwrgan, neu Gwrgant, a oedd yn Frenin ar Forgannwg cyn i'r Normaniaid ei oresgyn a meddiannu'r rhan fwyaf o'i dir.

Gan fod 'na dri Arglwydd, neu Dywysog yn Afan o'r enw Morgan a dau o'r enw Leision, mae'n gallu bod yn ddrsylyd. Yn ffodus ddigon mae gan bob un ohonynt lysenw, felly gallwn ddefnyddio'r rhain i osgoi eu cymysgu gyda'i gilydd.


Roedd y Cymry yn defnyddio enw ei tad neu fam, felly roedd Morgan ap Caradog yn fab i Garadog.

Mae enw Morgan Gam yn awgrymu bod ganddo anabledd, ac mae Morgan Fychan yn golygu naill ai ei fod yn ddyn bach, neu taw ef oedd y Morgan ifancaf, sef mab Morgan Gam.



Y Frwydr am Lincoln 1218 gan Matthew Paris
Matthew Paris - [2] from Matthew Paris (1240–1253), *Chronica Majora*, volume II, folio 51v (55v), OCLC 9980090. Public domain.

# MYSTERIOUS AFAN CUDD




Coeden Achau yn rhestru Deg Tywysog Afan Wallia a oedd yn ddisgynyddion i Iestyn ap Gwrgan, Brenin diwethaf Morgannwg Gan Tim Rees.

Yn Afan Wallia yn ystod y 12fed a'r 13eg ganrif, roedd Tywysogion Afan yn ymosod ar, ac yn gwrthsefyll y Normaniaid, a oedd yn dal i geisio dwyn eu tiroedd, ac yn parhau i ymosod ar y trefi Normanaidd. Roedd tiroedd Tywysogion Afan yn cynnwys dwy afon bwysig: Afon Afan ac Afon Nedd. Roedd y ddwy afon yn anodd iawn i'w croesi, yn enwedig yn ystod y gaeaf. Roedd sugndraethau peryglus ger Afon Nedd, ac roedd rhaid i bobl ddefnyddio cwch i gyrraedd Abertawe.




John Lydgate's Lives of Saints Edmund and Fremund, England (Bury St Edmunds?), 1461-c. 1475, Yates Thompson 47, f. 97 British Library https://blogs.bl.uk/digitisedmanuscripts/2012/07/sport-on-the-sea-and-river.html

Yn Llansawel y digwyddodd hyn. Roedd Gerallt Gymro bron â cholli ei geffyl yn y sugndraeth, ynghyd â'r llyfrau a'r pethau eraill roedd y ceffyl yn cario.

# MYSTERIOUS AFAN CUDD

Roedd Tywysogion Afan a'u holl bobl yn deall sut i groesi'r tir peryglus o gwmpas yr afonydd, felly roedd pawb yn dibynnu arnynt i'w hebrwng drostynt. Efallai taw hyn roedd yn rhoi iddynt y grym i ddal ymlaen at eu tiroedd, ac ennill parch y Normaniaid. Ar yr un pryd, roeddent wedi helpu gyda'r gwaith o adeiladu Abaty Margam a, pan fuont farw, cafodd ambell aelod o'r teulu eu claddu yno.



Ffotograff: John Lord / Adfeilion Abaty Margam. Wikimedia Commons

Ar ôl blynyddoedd lawer, roedd eu meibion a'u merched hefyd wedi priodi teuluoedd Normanaidd ac, yn raddol, wedi adeiladu gwlad heddychlon.



Miniadur o'r Codex Manesse, Public Domain.

Addaswyd y testun o'r gwwefannau:
https://calonafan.org/princes
https://www.owain-glyndwr.wales/word_web_pages/TheLordsOfAfan.htm
https://commons.wikimedia.org/wiki/Category:Neath_Castle#/media/File:NeathCastleRemains.jpg
https://www.visitwales.com/attraction/historic-site/neath-abbey-and-gatehouse-cadw-1600740
https://www.dhi.ac.uk/normans/matthewparis.html